



Dyffryn Clwyd Mission Area

Sunday 7th February 2021 – THE SECOND SUNDAY *before* LENT

Dyffryn Clwyd Mission Area Office

The office will be closed to visitors for the present time. Please contact me on Email at admin@dyffrynclwyd.co.uk;

Prayer for today

Almighty God, you have created the heavens and the earth and made us in your own image: teach us to discern your hand in all your works and your likeness in all your children; through Jesus Christ your Son our Lord, who with you and the Holy Spirit reigns supreme over all things, now and for ever. Amen.

Prayers for those in particular need: If you know anyone who would like to be included in our weekly prayer list across our churches – please email the administrator by **Thursday lunchtime** each week on admin@dyffrynclwyd.co.uk;

We continue to hold in our prayers, those who are sick or in particular need especially: Faith; David; Merion; Tony; Frank; Mari; Casandra; Sandra, Eirlys; May; Ian; Briony; John; Terry; Janet; Sylvia; Lesley; Jane, Janet, Mari, Andy, Ken, Christine Blease; Rosemary Williams; Sheila and family; Michael and Rosita, Rowan and family; Colin Edwards; Bert Harrison; Sian Harrison; Myron Lewis; Andrew Philips; Brain Roberts; Zackery Okane; John Whitworth, Chris, Pat and family; and all those suffering from the effect of the Coronavirus.

For those who have recently departed: Ralph Greening; Sylvia, Glenys Elvidge, Marion Jones.

Nursing Homes and Care Homes: We continue to pray for all those who live and work in our nursing and residential care homes.

From the Clergy of Dyffryn Clwyd Churches We are here for you, please message us with any prayer requests and feel free to phone any of us for support or just for a chat. Please do pray for us and for each other and our communities as we all weather this storm. *Revds.' Huw, Stuart, Richard*

Daily Services – will be live streamed from **10.00am & 10.30am on Sunday** on <http://fb.me/ACDyffrynClwydMA>

Mon 10.00 am Morning Prayer	Thurs 10.00 am Holy Communion
Tues 10.00 am Morning Prayer	Fri 10.00 am Meditation on-line contact Rev Richard
Tues 6.00 pm Holy Communion	Sat 10.00 am Holy Communion
Wed 10.00 am Holy Communion	Sun 10.30 am Holy Communion

You are invited to post Sunday service zoom meeting and cuppa at 11.45 am please click on the link below
<https://us02web.zoom.us/j/81771504912?pwd=YStleUvZFARcJFXSXFJRXLRLVdIZz09>

Or if you have the app here is the codes you'll need: **Meeting ID: 817 7150 4912 Passcode: 826653** You can dial in with Tel No. **0203 481 5240 or 0131 460 1196** using the same ID code and password above.

Farewell to Dylan: A very big thank you to all who were able to join us last Sunday for Dylan's final service with us and the post Eucharist cuppa. It was a very moving experience, and I am sure we would all want to wish Dylan the very best for his future as he moves to his new parish in Rhostyllen.

Wednesday 11.00 am weekly on-line coffee zoom and chat with the folks of Llanfair churches. If you would like the zoom link to join in – please email Martin King on martin@bulbourne.co.uk;

LENT course this year – WE will be doing it a little differently! A message from Rev Stuart.....

We will be using zoom to look at The Lord's Prayer and explore how it can help us develop our prayer life. Meetings will be from **19:00-20:30** on Tuesday evenings starting **Tuesday February 23rd** until **Tuesday April 15th**. PLEASE SEE POSTER IN Welsh and English for joining instructions.

CHANGES TO THE WAY YOU RECEIVE THE WEEKLY NEWSLETTER.

We are changing the way we send out the email. You will have received an email asking you to confirm your email address. Please can you either click on the link in that email or follow this link and confirm your email and sign up to the newsletter. <https://dyffrynclwyd.co.uk/newsletter> Scroll down and you will find a box to complete with your email details. You will continue to get the email weekly.

Readings for Next Sunday 14th February 2021 – THESUNDAY *before* LENT – Transfiguration Sunday
2 Kings 2: 1 - 12; Psalm 50: 1 - 6; 2 Corinthians 4: 3 - 6; Mark 9: 2 – 9;

Dydd Sul 7^{fed} Chwefror 2021
Yr Ail Sul cyn y Garawys

Hollalluog Dduw, creaiſt y nefoedd a'r ddaear a'n creu ni ar dy ddelw dy hun: dysg ni i ddirnad ôl dy law yn dy holl waith a'th lun yn dy holl blant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, yr hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân sy'n teyrnasu goruwch pob peth, yn awr a hyd byth.

Amen.

Darlleniad o Ddiarhebion (8.1, 22-31)

Onid yw doethineb yn galw, a deall yn codi ei lais?

Lluniodd yr Arglwydd fi ar ddechrau ei waith, yn gyntaf o'i weithredoedd gynt. Fe'm sefydlwyd yn y gorffennol pell, yn y dechrau, cyn bod daear. Ganwyd fi cyn bod dyfnderau, cyn bod ffynhonnau yn llawn dŵr. Cyn gosod sylfeini'r mynyddoedd, cyn bod y bryniau, y ganwyd fi, cyn iddo greu tir a meysydd, ac o flaen pridd y ddaear.

Yr oeddwn i yno pan oedd yn gosod y nefoedd yn ei lle ac yn rhoi cylch dros y dyfnder, pan oedd yn cadarnhau'r cymylau uwchben ac yn sicrhau ffynhonnau'r dyfnder, pan oedd yn gosod terfyn i'r môr, rhag i'r dyfroedd anufuddhau i'w air, a phan oedd yn cynllunio sylfeini'r ddaear. Yr oeddwn i wrth ei ochr yn gyson, yn hyfrydwch iddo beunydd, yn ddifyrrwch o'i flaen yn wastad, yn ymddifyrru yn y byd a greodd, ac yn ymhyfrydu mewn pobl.

Dyma air yr Arglwydd. **Diolch a fo i Dduw.**

Salm 104. 24-36

- 24 Mor niferus yw dy weithredoedd, O Arglwydd! Gwnaethost y cyfan mewn doethineb; y mae'r ddaear yn llawn o'th greaduriaid.
- 25 **Dyma'r môr mawr a llydan, gydag ymlusgiaid dirifedi a chreaduriaid bach a mawr.**
- 26 Arno y mae'r llongau yn tramwyo, a Lefiathan, a greaist i chwarae ynddo.
- 27 **Y mae'r cyfan ohonynt yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn ei bryd.**
- 28 Pan roddi iddynt, y maent yn ei gasglu ynghyd; pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.
- 29 **Ond pan guddi dy wyneb, fe'u drysir; pan gymeri eu hanadl, fe ddarfyddant, a dychwelyd i'r llwch.**
- 30 Pan anfon dy anadl, cânt eu creu, ac yr wyt yn adnewyddu wyneb y ddaear.
- 31 **Bydded gogoniant yr Arglwydd dros byth, a bydded iddo lawenhau yn ei weithredoedd.**
- 32 Pan yw'n edrych ar y ddaear, y mae'n crynu; pan yw'n cyffwrdd â'r mynyddoedd, y maent yn mygu.
- 33 **Canaf i'r Arglwydd tra byddaf byw, rhof foliant i Dduw tra byddaf.**
- 34 Bydded fy myfyrdod yn gymeradwy ganddo; yr wyf yn llawenhau yn yr Arglwydd.
- 35 **Bydded i'r pechaduriaid ddarfod o'r tir, ac na fydded y drygionus mwyach.**
- 36 Fy enaid, bendithia'r Arglwydd. Molwch yr Arglwydd.

Darlleniad o Golosiaid (1.15-20)

Hwn yw delw'r Duw anweledig, cyntafanedig yr holl greadigaeth; oherwydd ynddo ef y crewyd pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, pethau gweledig a phethau anweledig, gorseddau, arglwyddiaethau, tywysogaethau ac awdurdodau.

Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y mae pob peth wedi ei greu. Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll. Ef hefyd yw pen y corff, sef yr eglwys. Ef yw'r dechrau, y cyntafanedig o blith y meirw, i fod ei hun yn gyntaf ym mhob peth.

Oherwydd gwelodd Duw yn dda i'w holl gyflawnder breswyllo ynddo ef, a thrwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd.

Dyma air yr Arglwydd. **Diolch a fo i Dduw.**

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Ioan (1.1-14)

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.

Daeth dyn wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a'i enw Ioan. Daeth hwn yn dyst, i dystiolaethu am y goleuni, er mwyn i bawb ddod i gredu trwyddo. Nid ef oedd y goleuni, ond daeth i dystiolaethu am y goleuni. Yr oedd y gwir oleuni, sy'n goleuo pawb, eisoes yn dod i'r byd.

Yr oedd yn y byd, a daeth y byd i fod trwyddo, ac nid adnabu'r byd mohono. Daeth i'w gynefin ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono. Ond cynifer ag a'i derbyniodd, rhoes iddynt hwy, y rhai sy'n credu yn ei enw, hawl i ddod yn blant Duw, plant wedi eu geni nid o waed nac o ewyllys cnawd nac o ewyllys gŵr, ond o Dduw.

A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.

Dyma Efengyl yr Arglwydd. **Moliant i ti, O Grist.**

Gweddi ôl-gymundeb

Dduw ein creawdwr, trwy dy rodd y gosodwyd pren y bywyd yng nghanol y baradwys ddaearol, a bara'r bywyd yng nghalon dy Eglwys, bydded i ni, sydd wedi ein porthi wrth dy fwrdd ar y ddaear, gael ein trawsffurfio gan ogoniant croes y Gwaredwr a mwynhau hyfrydwch tragwyddoldeb; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**